# Staff Cymorth Gwrywaidd a Benywaidd

11 Mawrth 2022

**Cais am wybodaeth.**

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 17 Chwefror, pan wnaethoch ofyn:

a. *If you hold the information please could you tell me the breakdown, in numbers, of male and female support staff who work for/ are employed by Members of the Senedd.*
b. *If possible, could you also provide the number of male and female support staff employed in each of the 4 salary bands.*

a. *If you hold the information please could you tell me the breakdown, in numbers, of male and female support staff who work for/ are employed by Members of the Senedd.*

Gallwn gadarnhau bod gennym y wybodaeth y gofynnwyd amdani. Mae nifer y staff cymorth gwrywaidd a benywaidd a gyflogir gan Aelodau o'r Senedd fel a ganlyn (ar 21 Chwefror 2022):

| Menywod | Dynion | Cyfanswm |
|---|---|---|
| 144 | 120 | 261 |

b. *If possible, could you also provide the number of male and female support staff employed in each of the 4 salary bands.*

Gallwn gadarnhau bod gennym y wybodaeth y gofynnwyd amdani, ac mae'r rhan fwyaf o'r wybodaeth hon wedi'i nodi isod. Fodd bynnag, mae rhywfaint o'r wybodaeth yr ydych wedi gofyn amdani yn cynnwys data personol at ddibenion Rheoliad Cyffredinol ar Ddioeglu Data y Deyrnas Unedig (GDPR y DU).

Byddai datgelu nifer y staff cymorth gwrywaidd a gyflogir ym mand cyflog y 'Pennaeth Staff', yn ein barn ni, yn mynd yn groes i'r egwyddor diogelu data gyntaf a nodir yn

Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd, CF99 1SN

Welsh Parliament
Cardiff Bay
Cardiff, CF99 1SN
Ffôn/Tel: 0300 200 6224
E-bost/Email: Ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru
Information-request@senedd.wales

Erthygl 5 o GDPR y DU. Felly, mae'r wybodaeth hon wedi'i heithrio o'r gyfundrefn ddatgelu o dan adran 40(2) ac adran 40(3A)(a) o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 ("Deddf 2000"). Mae manylion pellach am y rhesymeg sydd y tu ôl i'r casgliad hwn yn yr atodiad i'r llythyr hwn.

Fodd bynnag, mewn ymdrech i ddarparu gwybodaeth i chi, yn ogystal â chydymffurfio â'n dyletswyddau o dan GDPR y DU, rydym wedi rhoi'r manylion hyn ar ffurf ddienw yn y tabl isod (ar 21 Chwefror 2022):

| **Band cyflog** | **Menywod** | **Dynion** |
|---|---|---|
| Pennaeth Staff | 0 | Llai na 5 |
| Uwch Gynghorydd/Staff Grŵp Ychwanegol | 8 | 18 |
| Band 1 | 49 | 38 |
| Band 2 | 44 | 37 |
| Band 3 | 44 | 26 |

*Noder: ni fydd cyfanswm y ffigurau cyfanswm yn cyd-fynd â'r dadansoddiad yn ôl band cyflog.  Y rheswm am hyn yw bod gan rai staff cymorth fwy nag un rôl ac maent yn cael eu talu ar fand cyflog gwahanol ar gyfer pob rôl.*

Yn gywir

**Buddug Saer**
**Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth**
**Senedd Cymru**

Mae eich cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y **Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth**. Mae croeso ichi gysylltu â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr ymateb hwn. Os ydych yn teimlo bod gennych achos i gwyno, dilynwch y canllawiau isod.

A oes gennych achos i bryderu neu i gwyno ynghylch yr ymateb a gawsoch i'ch cais?

Os ydych yn anfodlon ar sut y mae'r Senedd wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol o fewn 40 diwrnod gwaith i ddyddiad yr ymateb hwn. Dylid cyfeirio ceisiadau am adolygiad mewnol at y Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost a ganlyn:

**ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru** neu'n ysgrifenedig i

Senedd Cymru
Llywodraethu a Sicrwydd
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

**Atodiad**

Mae'r wybodaeth a geisir yn dod o fewn y diffiniad o ddata personol sydd wedi'i gynnwys yn GDPR y DU, sef:

"any information relating to an identified or identifiable natural person ('data subject'); an identifiable natural person is one who can be identified, directly or indirectly, in particular by reference to an identifier such as a name, an identification number, location data, an online identifier or to one or more factors specific to the physical, psychological, genetic, mental, economic, cultural or social identity of that natural person".

Mae gwybodaeth bersonol wedi'i heithrio o'r gyfundrefn ddatgelu o dan adran 40(2) a 40(3A)(a) o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, mewn achosion lle byddai ei datgelu yn mynd yn groes i o leiaf un o'r egwyddorion diogelu data yn GDPR y DU. Yr egwyddor sy'n berthnasol ar yr achlysur hwn yw'r egwyddor gyntaf o ran diogelu data.

Mae'r egwyddor diogelu data cyntaf fel y nodir yn Erthygl 5 o GDPR y DU yn nodi:

"Personal data shall be processed lawfully, fairly and in a transparent manner in relation to the data subject ('lawfulness, fairness and transparency')".

Wrth asesu a fyddai datgeliad yn deg, rydym wedi ystyried canlyniadau gwneud hynny, disgwyliadau rhesymol yr unigolion dan sylw a'r cydbwysedd rhwng eu hawliau ac unrhyw ddiddordeb dilys wrth ddatgelu'r wybodaeth. Ein casgliad yw y byddai'n annheg datgelu'r wybodaeth.

Mae Aelodau o'r Senedd yn cyflogi staff cymorth yn uniongyrchol ac mae'r staff hyn yn atebol i'r Aelodau hynny. Ni fyddai gan yr unigolion ddisgwyliad rhesymol y byddai data personol yn ymwneud â'u cyflogaeth yn cael eu datgelu gan Gomisiwn y Senedd. Er eu bod yn gweithio i gynrychiolydd etholedig, nid oes ganddynt rôl sy'n wynebu'r cyhoedd, nid ydynt yn atebol i'r cyhoedd fel Aelodau ac nid oes ganddynt unrhyw ddisgwyliad y bydd gwybodaeth sy'n ymwneud â'u cyflogaeth, yn enwedig o natur ariannol, yn cael ei chyhoeddi.

Drwy ryddhau'r wybodaeth y gofynnwyd amdani, efallai y bydd yn bosibl adnabod staff cymorth yr Aelodau sy'n dod o fewn band cyflog 'Pennaeth Staff', yn rhannol oherwydd y ffigur isel dan sylw. Mae'n bosibl y gallai hyn achosi gofid neu niwed.

Er gwaethaf ein barn ynghylch sicrhau tegwch, aethom ymlaen i ystyried Erthygl 6 o GDPR y DU. Nid yw unrhyw un o'r amodau yn Erthygl 6 yn berthnasol, heblaw Erthygl 6(1)(f), sy'n caniatáu i wybodaeth bersonol gael ei phrosesu ar yr amod a ganlyn:

“Processing is necessary for the purposes of legitimate interests pursued by the controller or by the third party, except where such interests are overridden by the interests or fundamental rights and freedoms of the data subject which require protection of personal data, in particular where the data subject is a child.”

Mae’r amod hwn yn cynnwys prawf mewn tair rhan:

- Rhaid bod datgelu'r wybodaeth o fudd cyhoeddus dilys;
- Rhaid i'r datgeliad fod yn angenrheidiol i sicrhau budd y cyhoedd; ac
- Ni ddylai'r datgeliad ddiystyru buddiannau, hawliau sylfaenol na rhyddid y pynciau data.

Rydym wedi ystyried yn ofalus y buddiannau perthnasol, sy'n cynnwys: cyfrifoldebau'r Senedd o dan GDPR y DU a Deddf Diogelu Data 2018; eich hawl chi i gael mynediad at y wybodaeth hon; natur rolau’r unigolion a'u hawl hwy i breifatrwydd; a budd y cyhoedd o ran datgelu'r wybodaeth hon.

Mae tryloywder ac atebolrwydd yn gyffredinol er budd y cyhoedd, ac mae gwybod am baramedrau a lefel y cymorth a gaiff Aelodau er mwyn caniatáu iddynt gyflawni eu swyddogaethau, gan gynnwys darparu cymorth staffio, hefyd o fudd i’r cyhoedd. Mae budd i’r cyhoedd hefyd o ddeall i ba raddau y mae Aelodau unigol yn defnyddio’r cymorth hwnnw.

Mae budd i’r cyhoedd hefyd mewn gwybod y gymhareb rhyw ar gyfer unigolion a gyflogir mewn rolau sy'n dod o fewn bandiau cyflog penodol gan ddefnyddio gwariant cyhoeddus, fel y gellir craffu ar hyn o safbwynt cydraddoldeb a'r defnydd o wariant cyhoeddus yn gyffredinol.

Fodd bynnag, nid oes gan staff cymorth yr Aelodau rôl sy'n wynebu'r cyhoedd (yn wahanol i rôl cynrychiolydd etholedig) ac ni fyddai ganddynt ddisgwyliad rhesymol y byddai'r wybodaeth hon yn cael ei rhyddhau. Mae llawer o'r pwyntiau a wnaed mewn perthynas â thegwch hefyd yn pwyso o blaid cynnal yr esemptiad.

O ran gwariant cyhoeddus, mae Comisiwn y Senedd yn **cyhoeddi** gwariant staffio blynyddol ar gyfer pob Aelod sy'n cyflogi tri neu fwy o staff ar wefan y Senedd.

Yn ein barn ni, mae budd cyhoeddus dilys yn cael ei fodloni yn yr achos hwn, a hynny drwy ddatgelu'r wybodaeth ar ffurf ddienw, a thrwy ymateb yn llawn i agweddau eraill ar eich cais. Felly, nid ydym yn teimlo bod angen datgelu'r wybodaeth y gofynnwyd amdani er mwyn bodloni'r prawf angenrheidrwydd, ac nid ydym o’r farn ychwaith bod y budd dilys yn drech na’r buddiannau, hawliau sylfaenol neu ryddid dan sylw. O'r herwydd, er bod budd cyhoeddus dilys mewn datgelu’r wybodaeth, nid yw'r agweddau eraill ar y prawf tair rhan yn cael eu bodloni a byddai datgeliad gan Gomisiwn y Senedd yn anghyfreithlon.